

## Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng

### Archwilio Mewnol (adnodd ar y cyd ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru)

ac

### Adran Safonau Proffesiynol Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

### Ar gyfer Adrodd ar Afreoleidd-dra Ariannol Tybiedig

#### Cefndir

Mae gofyn i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) a'r Heddlu gynnal y safonau uchaf o briodoldeb a chysondeb mewn materion ariannol, ynghyd â bodloni gofynion statudol.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cydnabod bod gan yr Adran Safonau Proffesiynol, y Swyddogion Adran 151 (Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Cyfarwyddwr Adnoddau) ac Archwilio Mewnol rolau wrth ymdrin ag afreoleidd-dra ariannol sy'n ymwneud â Gwasanaeth yr Heddlu. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ffurfioli'r trefniadau presennol sydd ar waith ar gyfer hysbysu ac ymchwilio i afreoleidd-dra ariannol tybiedig. Mae polisi SCHTh a'r Heddlu mewn perthynas ag atal a chanfod twyll wedi'i nodi yn y Polisi Atal Twyll a Llygredd ar y cyd.

#### Rolau a Chyfrifoldebau

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2008 yn llywodraethu rôl yr Adran Safonau Proffesiynol (ASP). Mae gan yr ASP ddyletswydd i ymchwilio i ymddygiad amhroffesiynol ac anfoesegol, cwynion a materion disgyblu, llygredd ac anonestrwydd o fewn Heddlu Gogledd Cymru. Mae pob mater o'r fath yn cael ei adrodd iddo ar gyfer ymchwiliad. Bydd y materion hyn yn cynnwys afreoleidd-dra ariannol.

Mae rôl Archwilio Mewnol mewn perthynas ag afreoleidd-dra ariannol wedi'i amlinellu yn y Rheoliadau Ariannol, sydd wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr Llywodraethu. Rhaid hysbysu Swyddogion Adran 151 ac Archwilio Mewnol am unrhyw golled neu afreoleidd-dra tybiedig.

At ddibenion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn:

Mae afreoleidd-dra yn golygu:

*“Twyll, llygredd neu unrhyw golled sylweddol o asedau neu gronfeydd.”*

Diffinnir twyll fel:

*“Aflunio datganiadau ariannol neu gofnodion eraill yn fwriadol gan unigolion mewnol neu allanol i SCHTh neu'r Heddlu a gyflawnir i guddio cam-berchnogi asedau neu fel arall er elw”.*

Mae gan lygredd sawl diffiniad, sy'n cynnwys:

*“Any activity carried out by an individual for gain, favour, advancement or reward that is inconsistent with the proper practice of their office, employment or responsibility” (SOCA/ACCAG)*

*“A law enforcement official commits an unlawful act or deliberately fails to fulfil their role arising out of an abuse of their position for personal or organisational advantage having the potential to affect a member of the Public” (SOCA/ACCAG)*

*“The abuse of entrusted power for private gain” (Transparency International)*

Mae hefyd yn cynnwys unrhyw amgylchiadau lle mae systemau, gweithdrefnau neu reolaethau wedi cael eu torri neu eu hanwybyddu mewn ffordd a fyddai wedi rhoi cyfle i dwyll, llygredd neu golled ddigwydd.

Archwilio Mewnol ydy'r gwasanaeth a ddarperir o dan A7 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) (a ddarperir ar hyn o bryd gan TIAA).

## Amcanion y Cytundeb hwn

Ein hamcanion ydy:

- ffurfioli parch y naill at y llall a phartneriaeth broffesiynol rhwng yr ASP ac AM wrth ymdrin ag afreoleidd-dra ariannol fel bod y ddau barti yn cyflawni eu rolau yn effeithiol ac yn effeithlon;
- hybu ymddiriedaeth a hyder cilyddol rhwng yr ASP ac AM er mwyn galluogi rhannu gwybodaeth;
- ffurfioli cydweithrediad agos trwy gefnogi rolau ei gilydd;
- darparu trefniadau i alluogi afreoleidd-dra ariannol i gael ei drafod ac enwebu pwyntiau cyswllt;

- sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau yn y system a nodir oherwydd afreoleidd-dra ariannol; a
- rhoi sicrwydd i'r CHTh a'r archwilwyr allanol bod trefniadau llywodraethu corfforaethol priodol yn eu lle i fynd i'r afael ag afreoleidd-dra ariannol o fewn Heddlu Gogledd Cymru neu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

## MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH

### 1) Cytunir: -

Bydd Archwilio Mewnol yn hysbysu'r Adran Safonau Proffesiynol am bob afreoleidd-dra tybiedig yn ymwneud â swyddogion Heddlu Gogledd Cymru a staff yr heddlu, boed yn gwbl gyflogedig, o dan gontract neu'n wirfoddol. Yn ogystal, dylid nodi y dylid cyfeirio honiadau o lygredd difrifol at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOCC) fel mater o drefn. Darperir diffiniad o lygredd difrifol yn eu cyhoeddiad canllaw statudol POL/06.

### 2) Bydd yr ASP yn hysbysu Archwilio Mewnol am unrhyw afreoleidd-dra tybiedig sy'n ymwneud â:

- cronfeydd neu asedau SCHTh;
- cytundebau caffael, offer, storfeydd neu asedau eraill SCHTh;
- arian a atafaelwyd neu a ganfuwyd neu eiddo arall yn nalfa Heddlu Gogledd Cymru; neu
- cronfeydd preifat neu eraill a weinyddir gan yr Heddlu neu SCHTh drwy rinwedd eu swydd.

### 3) Bydd yr hysbysiad yn cynnwys cymaint o'r wybodaeth ganlynol ag sydd ar gael, fel arfer:

- amlinelliad byr o'r hyn a amheuir neu yr honnir ei fod wedi digwydd;
- pwy sy'n cael eu hamau neu sy'n gysylltiedig;
- statws yr ymchwiliad;
- y swm neu'r gwerth sydd neu a all fod yn gysylltiedig; ac
- enw a rhif ffôn y Swyddog Ymchwilio ac amcangyfrif o amserlen yr ymchwiliad.


### 4) Oni bai mewn amgylchiadau lle mae'n rhaid cyfeirio'r mater ar unwaith at Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu, cynhelir cyfarfod ar ddechrau unrhyw ymchwiliad rhwng yr ASP ac Archwilio Mewnol er mwyn penderfynu ar:

- ymdriniaeth gytbwys i'r ymchwiliad; a'r
- llinellau adrodd

- 5) Bydd yr holl bartïon perthnasol yn hysbysu ei gilydd am statws ymchwiliadau er mwyn osgoi anwybyddu achosion neu ddyblygu ymdrech.
- 6) Bydd Archwilio Mewnol yn sicrhau bod yr holl oblygiadau systemau a nodir mewn achosion yn cael eu hadrodd yn briodol.
- 7) Bydd Archwilio Mewnol yn darparu cymorth priodol i'r ASP pan ofynnir amdano mewn perthynas ag unrhyw fater a gwmpesir gan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.
- 8) Bydd yr ASP yn rhoi mynediad priodol i Archwilio Mewnol i'w chyfleusterau er mwyn cefnogi eu harchwiliadau a'u hymchwiliadau o ran materion a gwmpesir gan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.
- 9) Bydd yr ASP yn hysbysu Archwilio Mewnol am ganlyniadau ymchwiliadau a gwmpesir gan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn. Yn yr un modd, bydd Archwilio Mewnol yn hysbysu'r ASP am ganlyniadau unrhyw fater a gyfeirir atynt.
- 10) Gwnaiff Archwilio Mewnol hysbysu'r Prif Swyddog Cyllid ac, fel y bo'n briodol, y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau am unrhyw fater a adroddir o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.
- 11) Bydd Archwilio Mewnol yn cydlynu ac yn cwblhau'r ffurflen dwyll flynyddol i'r archwilwyr allanol ar ran SCHTh a'r Heddlu os gofynnir am hynny. Bydd yr ASP yn darparu lefel ddigonol o wybodaeth ar ei achosion er mwyn gallu llunio'r datganiad o fewn yr amserlen a bennwyd ar gyfer ei chwblhau.
- 12) Bydd Archwilio Mewnol a'r ASP yn creu gwybodaeth berthnasol yn crynhoi gweithgarwch atal twyll a gwrthlygredd y flwyddyn flaenorol, i'w gynnwys yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol. Bydd gwybodaeth neu guddwybodaeth a gyfnewidir o dan delerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cael ei diogelu a'i thrin yn gyfrinachol ac yn unol â deddfwriaeth briodol.

**Kate Jackson**  
**Prif Swyddog Cyllid**  
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd**

**Seb Phillips**  
**Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau**  
**Prif Gwnstabl**



**HEDDLU GOGLEDD CYMRU**  
Gogledd Cymru diogelach

**NORTH WALES POLICE**  
A safer North Wales

Llofnod.....

Dyddiad 30 Mai 2022

.....

**Helen Cargill**  
**Pennaeth Archwilio Mewnol**

Llofnod .....

Dyddiad 30 Mai 2022

.....

Llofnod.....

Dyddiad 30 Mai 2022

.....

**Ditectif Uwcharolygydd Jackie Downs**  
**Prif Gwnstabl**

Llofnod .....

Dyddiad 31 Mai 2022

.....

Adolygir y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ar y cyd yn flynyddol o leiaf.